# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 30 MEHEFIN 2021

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave, L.Jones a/ac M.Harvey

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, H.Jenkins, N.Pearce, D Griffiths, H.Jones, M.Shaw, P. Hinder, C. Plowman and J.Woodman-Ralph

---

## 1. APPOINTMENT OF CHAIRPERSON

Cytunwyd y dylai'r Cynghorydd E.V. Latham gael ei benodi'n Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S. Rahaman | Parthed: Eitem 5 ar yr Agenda, Rhaglen Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Gan ei fod yn aelod o Gyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe. |
| Y Cynghorydd S. Freeguard | Parthed: Eitem 5 ar yr Agenda, Rhaglen Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Gan ei bod yn aelod o Gyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe. |

## 3. RHAGLEN SGILIAU A THALENT BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig:

1. Cymeradwyir achos busnes Talent a Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i gyflwyno'n ffurfiol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol â Chynllun Gweithredu'r Fargen Ddinesig i sicrhau cymeradwyaeth ariannol y Fargen Ddinesig.

2. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r achos busnes sy'n ofynnol er mwyn cael cymeradwyaeth ar lefel leol a chenedlaethol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Er mwyn galluogi cyflwyno'r achos busnes Sgiliau a Thalent yn ffurfiol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol â phroses cymeradwyo prosiect y Fargen Ddinesig.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 4. PROSIECT SINEMA CANOLFAN CELFYDDYDAU PONTARDAWE

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig. Rhoddir cymeradwyaeth i neilltuo £600K ychwanegol ar gyfer datblygu'r sinema 70 sedd, llety ategol a chynigion adnewyddu llawr gwaelod mewnol Canolfan Celfyddydau Pontardawe fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cynnig presennol yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe i gynyddu incwm cynyddol gan arwain at lai o gymhorthdal.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 5. ADOLYGIAD ARCHWILIO CYMRU O'R SYSTEM RHEOLI PERFFORMIAD CORFFORAETHOL (SRHPC)

Derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad llafar a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod rhoi'r penderfyniad ar waith wedi'i hepgor o'r adroddiad. Dylai'r adroddiad fod wedi datgan bod y penderfyniad yn amodol ar y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Penderfyniad:**

Rhoddir cymeradwyaeth i ymgymryd â'r gwaith mewn perthynas â'r cyfleoedd i wella fel y nodir yn y cynllun gweithredu a geir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau ar waith i gryfhau ei drefniadau cynllunio busnes, rheoli perfformiad a rheoli risg.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 6. BUDDSODDIADAU O GRONFEYDD WRTH GEFN 2021/2022

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, caiff y buddsoddiadau fel y'u nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd eu cymeradwyo.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Darparu gallu a chymorth ychwanegol i fusnesau, defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau wrth i ni adfer o effeithiau COVID-19.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 7. ADFER, AILOSOD, ADNEWYDDU

**Penderfyniadau:**

1.Nodir ymateb y cyngor i COVID-19 hyd yma.

2.Nodir y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 a'r gwaith cynnar sy'n cael ei wneud i baratoi'r ffordd ar gyfer adferiad tymor hwy.

3.Cymeradwyir y fframwaith a amlinellir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd i lywio gwaith i adfer, ailosod ac adnewyddu gwasanaethau a swyddogaethau'r cyngor a blaenoriaethau tymor hwy.

4.Cymeradwyir y cynllun ymgysylltu.

5.Mae'r ymgysylltu hwnnw'n digwydd gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, gan brofi'r ymagwedd at gynllunio adferiad gyda phanel cymheiriaid allanol, annibynnol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I sicrhau bod ymagwedd strwythuredig at yr ymateb parhaus i COVID-19 a'r gwaith cynnar i gynllunio llwybr at adferiad a bod yr ymagwedd yn darparu ar gyfer mewnbwn gan ystod eang o randdeiliaid.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 8. TÎM GORFODI COVID-19

**Yn nodi:**

Y dylid nodi’r canlynol:

- Gwaith parhaus tîm Gorfodi COVID-19 ac
- Ymestyn contractau staff (yn unol â dirprwyaeth gytunedig y Pwyllgor Personél) tan 31 Mawrth 2022 ac i'r Awdurdod geisio

adennill costau ychwanegol o Gronfa Caledi Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru.

## 9. PAPUR GWAITH AR Y CYD BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BAE ABERTAWE A CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT AR GWM AFAN UCHAF

**Penderfyniadau:**

1. Caiff ymagwedd gydlynol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ei chymryd fel eu bod ar y cyd yn mynd ati o bosib i adleoli'r cyfleuster iechyd a gwneud gwelliannau i'r briffordd.

2. Caiff cyfarfod ar y cyd ei drefnu â swyddogion Llywodraeth Cymru i archwilio'r potensial ar gyfer yr ymagwedd hon a buddsoddi.

3. Caiff y gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer iechyd a phriffyrdd eu datblygu a'u cydweddu.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I gefnogi ymagwedd gydlynol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu yn y cyfarfod. Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith ac felly nid yw'n destun y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 10. 'CYMRU WRTH-HILIOL: CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB HILIOL CYMRU – YMATEB DRAFFT I'R YMGYNGHORIAD

**Penderfyniad:**

Cymeradwyir yr ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru' a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I gefnogi gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 11. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU

**Penderfyniadau:**

1.Caiff yr adroddiad ei nodi.

2.Rhoddir cymeradwyaeth i ail-lansio Cronfa Gymunedol yr Aelodau o fewn cyfyngiadau amserlen gryno.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Hwyluso llywodraethu a chyflwyno Cronfa'r Aelodau yn ei ail dymor

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu yn y cyfarfod. Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith ac nid yw'n destun y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**